Adroddiad i'r:	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod:	19 Gorffennaf 2022
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Nicola Kneale, Cyd-Bennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl:	Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor 2021 i 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Hunanasesiad Perfformiad y cyngor ar gyfer 2021 i 2022, gan ddarparu ein dadansoddiad diwedd blwyddyn o gynnydd a heriau gyda'n hamcanion perfformiad allweddol (h.y. ein Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol) ac ym mhob un o'r saith maes llywodraethu. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi naratif ar weithgarwch y cyngor i gefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Er iddo gael ei dreialu y llynedd, yr adroddiad hwn yw'r ddogfen statudol ofynnol gyntaf a ysgrifennwyd mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor lunio Hunanasesiad o'i berfformiad yn erbyn ei swyddogaethau. Mae hefyd yn ymateb i'n dyletswydd ynghylch monitro cydraddoldeb (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011, sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol), a'n cyfraniadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.2 Mae adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r

Cabinet. Mae ein Crynodeb Gweithredol, a gyflwynir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn rhoi datganiad gwerthusol o'n cynnydd.

2.3 Mae angen penderfyniad i gymeradwyo Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor 2021 i 2022.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020 i 2021.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.

4.2 Gyda'r adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno tair dogfen:

- Mae Atodiad I yn cyflwyno ein Crynodeb Gweithredol, sy'n ceisio tynnu sylw at uchafbwyntiau ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion (h.y. ein Blaenoriaethau Corfforaethol sef ein Hamcanion Llesiant a Chydraddoldeb) a'r saith maes llywodraethu (a bennwyd gan Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). I bob pwrpas, y paragraffau byr yn y ddogfen hon yw ein datganiad o berfformiad yn erbyn ein swyddogaethau, sydd hefyd yn edrych ymlaen at yr heriau sy'n ein hwynebu a meysydd i'w gwella.

- Atodiad II yw ein Hadroddiad Diweddaru Perfformiad chwarterol cyfarwydd, sef ein proses ar gyfer hunanasesu parhaus ac mae'n ymgorffori'r holl dystiolaeth (mewnol ac allanol) a dadansoddiad sy'n ceisio ateb y cwestiynau 'Pa mor dda ydyn ni'n gwneud', 'Sut ydyn ni'n gwybod ', a 'Beth a sut allwn ni wneud yn well'? Mae'r Adroddiad Diweddaru Perfformiad hwn yn

cyflwyno'r darlun diweddaraf ar gyfer Ionawr i Fawrth 2022 yn unig, ond wedi'i gyfuno â'r Crynodeb Gweithredol a'r tri Adroddiad Diweddaru blaenorol, mae'r set lawn yn rhan o'n Hunanasesiad ar gyfer 2021 i 2022. Bydd adolygu pob un o'r pedwar Adroddiad Diweddaru Perfformiad gyda'i gilydd yn galluogi'r darllenydd i weld gweithgarwch gwella yr ydym wedi'i nodi drwy gydol y flwyddyn i gefnogi perfformiad.

- Mae Atodiad III yn adroddiad 'untro' sy'n ceisio crynhoi perfformiad ein Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022 dros ei gyfnod o bum mlynedd, nawr ein bod wedi cyrraedd ei flwyddyn olaf.

4.3 Ym mhob is-adran blaenoriaeth corfforaethol, rydym yn parhau i gynnwys adrannau Lles a Chydraddoldeb hefyd sy'n sôn am ein cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011 (sy'n cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol). Rydym hefyd yn cynnwys pennod Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar wahân, sy'n cynnwys mentrau corfforaethol i gefnogi'r agenda hon.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Hunanasesiad Perfformiad yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor i gyflenwi yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017. Bydd prosiectau unigol / rhaglenni gwaith o fewn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu hasesu'n unigol wedyn, fel ag y bydd unrhyw gamau gweithredu newydd wrth symud ymlaen.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae’r adroddiad wedi’i ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Gofynnwyd am adborth eisoes am yr adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (bellach yn ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021), y Pwyllgor Craffu Perfformiad cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Sir.

8.2 Ar ôl ystyried yr adroddiad yn ystod ei gyfarfod ar 9 Mehefin, argymhellodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad *“wrth symud ymlaen, bod y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i hwyluso teithio llesol, lleihau ei ddefnydd o blastigion mewn prydau ysgol a gwasanaethau eraill, mynd ati i chwilio am gyfleoedd i leihau allyriadau carbon wrth ddarparu gwasanaethau, ac mae'n rhagweithiol wrth leihau amddifadedd ar draws y sir”.*

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes angen datganiad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai methu â chyhoeddi ein Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da’r cyngor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (pennod 1, adran 89).

11.2 Rhan 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13).

11.3 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (adran 16).